Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Adroddiad interim ar y sector uwchradd

Ionawr a Chwefror 2021



# Adroddiad interim ar y sector uwchradd

# Ionawr a Chwefror 2021

## Cynnwys


Lles disgyblion ........ 1
Darpariaeth gofal plant ........ 2
Lles staff ........ 3
Dysgu o bell ........ 3
Medrau disgyblion ........ 5
Setiau a bandiau ........ 6
Monitro darpariaeth dysgu o bell ac ymgysylltiad disgyblion ........ 6
Dysgu proffesiynol ........ 7
Cymwysterau ac arholiadau ........ 8
Cyfathrebu â rieni, a chymorth ar eu cyfer ........ 8
Dyfeisiau a chysylltedd digidol ........ 9
Amseriad y diwrnod ysgol ........ 10
Profi Olrhain Diogelu ........ 10
Athrawon newydd gymhwyso a myfyrwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon....... 11

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o alwadau ffôn ymgysylltu a galwadau ffôn bugeiliol a wnaed i ysgolion uwchradd yn ystod Ionawr a Chwefror 2021. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid, uwch arweinwyr ac athrawon.

## Lles disgyblion

Mae llawer o ysgolion yn cynnal sesiynau rheolaidd ar-lein â thiwtoriaid dosbarth er mwyn gwirio lles disgyblion. Yn y sesiynau hyn, gofynnir i ddisgyblion droi eu camerâu ymlaen fel arfer, er mwyn i'w hathrawon dosbarth eu gweld. Mae ysgolion yn cynnal gwasanaethau rheolaidd ar-lein hefyd. Mae ysgolion a rhieni yn pryderu am faint o amser mae disgyblion a staff yn ei dreulio ar y sgrin, ac, yn gynyddol, mae ysgolion yn gweithredu sesiynau neu ddiwrnodau dim sgrin.

**Cameo**

**Ysgol Uwchradd Crucywel**

Er mwyn cefnogi lles disgyblion a staff, cynhaliodd Ysgol Uwchradd Crucywel ddiwrnod lles. Nid oedd hyn yn cynnwys unrhyw amser sgrin, ac roedd yn gyfle i ddisgyblion a staff gwblhau gweithgareddau allgyrsiol, mynd am dro, ac ati. Maent yn bwriadu cynnal prynhawn lles wythnosol lle nad yw disgyblion a staff yn mewngofnodi. Maent yn gobeithio y bydd yn cefnogi disgyblion grwpiau blwyddyn arholiadau yn benodol, gan eu bod yn bryderus iawn ar hyn o bryd.

At ei gilydd, mae ysgolion yn gweld bod disgyblion yn fwy pryderus ac ansicr yn ystod y cyfnod clo hwn. Mae disgyblion hŷn yn bryderus am y trefniadau ar gyfer arholiadau, ac mae ysgolion yn teimlo bod y tywydd gwael, nosweithiau tywyll a'r cyfleoedd cyfyngedig i fynd y tu allan wedi cael effaith negyddol ar les disgyblion. Yn ychwanegol, mae mwy o rieni'n gweithio yn ystod y cyfnod clo hwn, sy'n golygu bod llai o gymorth gartref i rai disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau at gyrff allanol fel CAMHS a gwasanaethau amddiffyn plant, ac o ran achosion o gamdriniaeth ddomestig a adroddir iddynt trwy Operation Encompass. O ganlyniad i'r cynnydd mewn galw, mae ysgolion yn cael anawsterau mewn cael cymorth gan asiantaethau allanol ar gyfer yr holl ddisgyblion sydd mewn angen. Yn benodol, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael heriau o ran manteisio ar gymorth i ddisgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae staff ysgol yn rhagweld y bydd galw cynyddol pellach ar gyfer cymorth gan asiantaethau allanol pan fydd yr holl ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol.

**Cameo**

**Ysgol Gyfun Y Strade**

Mae Ysgol Gyfun Y Strade wedi ychwanegu 'Botwm Becso' at ei gwefan. Gall disgyblion ddefnyddio'r botwm hwn ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos i roi gwybod am unrhyw bryderon neu ofidiau a allai fod ganddynt. Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol ac yn mynd yn syth at y pennaeth cynorthwyol sy'n gyfrifol am les, sydd wedyn yn cysylltu â'r disgybl ac yn penderfynu sut orau i'w gynorthwyo.

Mae ysgolion yn parhau i ffonio disgyblion bregus. Yn aml, cynorthwywyr addysgu sy'n gwneud hyn. Hefyd, mae llawer o ysgolion yn cysylltu cynorthwywyr addysgu ag ystafelloedd dosbarth rhithwir er mwyn cynorthwyo disgyblion bregus â'u gwaith. Mae llawer o ysgolion wedi addasu'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion bregus sy'n cael trafferth ymgysylltu, neu'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn yr achosion hyn, mae ganddynt gwricwlwm mwy cul a ffocws penodol ar ddatblygu medrau.

**Cameo**

**Ysgol Uwchradd Cathays**

Mae Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnal arolygon lles. Mae'n dyrannu sgôr lles i bob disgybl, ac yn monitro hyn yn ofalus. Mae wedi darganfod bod ganddi nifer uwch o ddisgyblion yn y categori bregus nag oedd ynddo cyn y pandemig. Er enghraifft, mae merched gallu uwch yng nghyfnod allweddol 4 sy'n pryderu am eu cyrsiau TGAU a'r pandemig bellach yn cael eu cynnwys. Ar ôl nodi disgyblion bregus ar sail sgorau lles, mae'r ysgol wedyn yn gweithredu i liniaru'r materion lles; er enghraifft, defnyddir arweinwyr bugeiliol a staff nad ydynt yn addysgu i gysylltu â phlant a theuluoedd i drafod pryderon.

Yn ogystal â disgyblion bregus a phlant gweithwyr allweddol, mae ysgolion yn gynyddol yn gwahodd disgyblion nad ydynt yn ymroi yn dda i waith ysgol, neu'n ei chael yn anodd ymgysylltu, i'r ysgol, lle darperir cymorth iddynt.

**Cameo**

**Ysgol Uwchradd Crucywel**

Yn ogystal â chynnal hwb ar gyfer plant gweithwyr allweddol a disgyblion bregus, mae Ysgol Uwchradd Crucywel hefyd yn cynnal hwb ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n cael anawsterau yn trefnu eu hunain i wneud eu gwaith o gartref. Caiff yr hwb hwn ei staffio gan gynorthwywyr addysgu a staff cymorth.

## Darpariaeth gofal plant

Mae ysgolion yn parhau i gynnig darpariaeth gofal plant ar gyfer plant gweithwyr allweddol a disgyblion bregus. Mae'r galw am y ddarpariaeth hon yn weddol isel ac yn debyg i'r galw yn ystod y cyfnod clo blaenorol, er bod niferoedd yn uwch gan fod ysgolion yn gwahodd mwy o ddisgyblion i fynychu'r ddarpariaeth hon. Mewn llawer o achosion, mae cynorthwywyr addysgu a thimau arweinyddiaeth yn cefnogi'r ddarpariaeth hon.

## Lles staff

Dywed ysgolion fod athrawon yn gadarnhaol o ran eu hagwedd, er eu bod wedi blino'n lân. Maent yn gweld bod cynllunio ar gyfer dysgu ar-lein yn llafurus iawn, ac yn pryderu'n fawr am y trefniadau ar gyfer arholiadau. Yn gyffredinol, mae staff yn poeni'n fwy am risgiau dal y feirws nag yn ystod y cyfnod clo blaenorol.

## Dysgu o bell

Mae ysgolion yn darparu llawer mwy o wersi byw nag yn ystod y cyfnod clo blaenorol. Mae penaethiaid yn croesawu'r newidiadau i'r canllawiau ynghylch gwersi byw. Cyn y newid, roedd dehongliad penaethiaid o'r canllawiau hyn yn amrywio, gyda rhai ohonynt yn addasu eu prosesau ac yn darparu gwersi byw (e.e. pan oedd grwpiau blwyddyn yn hunanynysu) a phenaethiaid eraill yn teimlo bod y canllawiau yn eu hatal rhag darparu gwersi byw.

Mae'r dull ar gyfer darparu gwersi byw yn amrywio ar draws ysgolion. Mae llawer o ysgolion yn darparu cyfuniad o wersi byw, gwersi wedi'u recordio ymlaen llaw, gwersi lled-gydamserol, deunyddiau dysgu anghydamserol ac amser neu weithgareddau oddi ar y sgrin. Gwneir hyn er mwyn amrywio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion, bodloni'r gofynion ar athrawon sydd â chyfrifoldebau gofalu, ac adlewyrchu'r ffaith fod mynediad disgyblion at ddyfeisiau digidol yn parhau i fod yn broblem, yn enwedig mewn cartrefi lle caiff un ddyfais ei rhannu rhwng sawl brawd a chwaer.

Yn gynyddol, mae ysgolion yn disgwyl i athrawon ddarparu gwersi lle ceir 'presenoldeb athro', naill ai drwy wersi byw neu wersi wedi'u recordio ymlaen llaw sy'n cynnwys fideos o'r athro. Mae ysgolion hefyd yn annog athrawon i gyflwyno elfennau mwy rhyngweithiol mewn gwersi er mwyn cynyddu cyfranogiad disgyblion a meithrin perthnasoedd athrawon a disgyblion. Mewn ysgolion lle mae gwersi byw wedi cael eu darparu ers tro, mae athrawon wedi canfod bod darparu mewnbynnau byw byr, yn enwedig ar ddechrau a diwedd gwersi, wedi'u cyfuno ag amser i ddisgyblion weithio'n annibynnol neu ar y cyd, yn gweithio'n dda, ac yn cynyddu ymgysylltiad disgyblion. Mewn rhai ysgolion, mae disgwyliad gofynnol ynghylch nifer y gwersi byw (e.e. o leiaf un i bob dosbarth bob pythefnos), ond mewn ychydig o ysgolion, disgwylir i athrawon ddarparu gwersi byw trwy gydol y diwrnod ysgol. At ei gilydd, mae disgyblion cyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16 yn tueddu i gael mwy o wersi byw na disgyblion yng nghyfnod allweddol 3.

Mewn rhai achosion, mae athrawon yn uno dau ddosbarth gyda'i gilydd, gydag un athro'n 'cyflwyno'r' wers a'r llall yn monitro'r sgwrs ac yn ateb cwestiynau disgyblion. Hefyd, mae athrawon yn 'galw i mewn' i wersi ei gilydd, neu'n gwylio recordiadau byw ohonynt, ac yn rhannu cyfrifoldebau am gynllunio gwersi ar-lein. Dywed ysgolion fod y dull cydweithredol hwn wedi bod yn gyfle gwerthfawr i athrawon arsylwi ei gilydd yn addysgu, a dysgu oddi wrth ei gilydd.

**Cameo**

**Ysgol Uwchradd Cathays**

Mae Ysgol Uwchradd Cathays wedi rhannu'r diwrnod ysgol ar-lein yn dair sesiwn awr a hanner. Bob dydd, mae dwy o'r sesiynau hyn ar gyfer gwersi, ac un sesiwn yn sesiwn astudio annibynnol ar gyfer cwblhau gwaith, ac i ddisgyblion ddefnyddio'r apiau amrywiol y mae ganddynt fynediad atynt, fel apiau llythrennedd a rhifedd. Cynhelir 2 wasanaeth ar-lein bob wythnos hefyd, ac yn ystod y rhain, gosodir tasgau i ddisgyblion eu cwblhau yn eu sesiynau astudio annibynnol.

Yn ystod y sesiynau 'gwersi', mae disgyblion yn cwblhau gwaith sy'n ymwneud yn benodol â phwnc. Mae llawer o athrawon yn ei chael yn haws cyflwyno'r rhain fel sesiynau byw na darparu deunyddiau anghydamserol. Yn ystod sesiynau byw, ni ddisgwylir i athrawon fod yn siarad yr holl amser. Rhoddir tasgau i ddisgyblion eu cwblhau, ac mae'r athro yn monitro gwaith yn cael ei gwblhau ar-lein. Gall yr athro weld gwaith pob disgybl, ac ychwanegu sylwadau, gan felly ddarparu adborth ar unwaith. Disgwylir i ddisgyblion gwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith a osodir yn ystod y sesiwn awr a hanner (er eu bod weithiau'n defnyddio'r sesiwn astudio annibynnol i gwblhau gwaith). Mae disgyblion wedi dweud bod yn well ganddynt y ffordd honno gan eu bod yn teimlo wedi eu llethu'n llai gan faint y gwaith oedd yn cael ei gynnig iddynt i gyflawni'n annibynnol dros y we. Hefyd maent yn gwerthfawrogi'r adborth byw. Mae arweinwyr yn teimlo bod hyn yn fwy hylaw i athrawon hefyd.

Dywed yr ysgol fod y system hon wedi'i gwneud yn haws iddynt fonitro gwir ymgysylltu â dysgu, oherwydd os yw disgyblion yn mewngofnodi i wersi, disgwylir iddynt gwblhau gwaith ar yr un pryd hefyd. Mae cymryd rhan mewn dysgu wedi gwella o ganlyniad i'r system hon. Mae'r ysgol yn cysylltu â'r disgyblion hynny nad ydynt yn ymgysylltu, a deuir â nhw i'r ysgol i gwblhau gwaith yn adeilad yr ysgol, gyda chymorth priodol.

Mae athrawon yn dod yn gynyddol hyderus o ran defnyddio technoleg i gefnogi dysgu, ac yn annog rhyngweithio â disgyblion yn benodol. Er enghraifft, mae athrawon yn gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfleuster sgwrsio ac ystafelloedd ymneilltuo rhithwir. Dywed ysgolion fod darparu gwaith a chymorth sydd wedi'i wahaniaethu'n briodol i ddiwallu anghenion dysgwyr o wahanol alluoedd yn hynod heriol wrth addysgu o bell.

**Cameo**

**Ysgol Uwchradd Caerdydd**

Mae arweinwyr ac athrawon yn Ysgol Uwchradd Caerdydd wedi nodi agweddau y maent yn annog athrawon i'w hymgorffori yn eu darpariaeth dysgu o bell, ac agweddau eraill y dylent eu hosgoi neu gyfyngu arnynt. Maent wedi gweld bod staff yn aml yn gor-gynllunio sesiynau, ac maen nhw nawr yn ceisio annog athrawon i leihau cynnwys y gwersi i sicrhau bod dysgu effeithiol yn digwydd. Maent yn annog athrawon i ddefnyddio profion lle nad oes llawer yn y fantol (cwisiau, ac ati), fel eu bod yn gwirio ymgysylltiad disgyblion yn rheolaidd. Maent yn pryderu bod gormod o weithgareddau dysgu yn digwydd yn ddigidol, ac mae arweinwyr yn awr yn annog athrawon i osod tasgau nad ydynt yn ddigidol, fel ysgrifennu mewn cyfnodolyn pwrpasol neu ddarllen llyfr 'go iawn'. Caiff athrawon sgyrsiau rheolaidd am addysgeg, ac maent yn dechrau defnyddio dull 'mae llai yn

gyfystyr â mwy': rhannu gwaith yn ddarnau, atgyfnerthu dysgu, a sicrhau nad ymdrinnir â chynnwys yn rhy gyflym.

Trwy gyfarfodydd a gweithgareddau dysgu proffesiynol, mae staff wedi nodi bod medrau cyfathrebu athrawon yn hynod bwysig, yn enwedig eu hyfedredd o ran dechrau a datblygu trafodaeth. Mae athrawon wedi trafod dulliau holi sy'n gweithio'n dda mewn sesiwn gydamserol, a'r defnydd gorau o'r 'cyfleuster sgwrsio' i annog atebion meddylgar gan ddisgyblion. Maent wedi darganfod bod athrawon yn aml yn gorddefnyddio cymwysiadau. Er bod y rhain yn gallu creu diddordeb, gallant ymyrryd â dysgu hefyd, yn enwedig pan fydd rheidrwydd i agor gwahanol fathau o ffeiliau ar ffôn neu gyfrifiadur llechen. Mae uwch arweinwyr ac athrawon wedi nodi bod defnyddio cyfleusterau syml yn effeithiol, fel defnydd creadigol o'r cyfleuster 'dwylo i fyny', yn fwy effeithiol. Hefyd, mae athrawon wedi darganfod bod angen arwain disgyblion yn fwy systematig trwy eu dysgu nag a allai ddigwydd yn yr ystafell ddosbarth lle gall athro gynorthwyo unigolion yn hawdd, neu gall disgyblion fynd ar drywydd ciwiau gan eu cyfoedion. Erbyn hyn, mae athrawon yn gweithio ar wneud disgwyliadau'n gliriach ac yn rhoi cyfarwyddyd i ddisgyblion trwy gydol y dysgu. Maent yn ystyried datblygu dulliau grwpiau astudio cyfoedion.

Mae disgyblion yn gweithio yn unol ag amserlen benodedig sy'n adlewyrchu'r amserlen arferol. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad o wersi byw, gweminarau (lle mae athrawon yn cyflwyno sesiwn, mae disgyblion yn treulio'r rhan fwyaf o'r amser yn gweithio'n unigol, ac mae disgyblion yn dod yn ôl ar ddiwedd y sesiwn i drafod eu gwaith) a chyfnodau hunanastudio. Cynhelir uchafswm o 3 sesiwn fyw neu sesiwn gweminar bob dydd (er mwyn peidio â threulio gormod o amser ar y sgrin), a chydbwysedd o sesiynau byw a gweminar ar draws yr amserlen o bythefnos. Cynrychiolir pob pwnc ar yr amserlen. Nid yw unrhyw wersi byw yn hwy na 40 munud. Mae'r amserlen lem yn galluogi teuluoedd i gynllunio eu hamser a'u cyfle i ddefnyddio dyfeisiau. Mae'r ysgol yn mynnu bod athrawon yn dilyn yr amserlen am y rheswm hwn. Mae ychydig o ddisgyblion wedi gofyn bod deunyddiau gweminarau yn cael eu lanlwytho cyn y sesiwn, a bod yr ysgol wedi caniatáu hyn lle mae'n ymarferol. Mae'r cyfnodau hunanastudio yn caniatáu amser i staff gynllunio.

Mae ysgolion yn parhau i weithio i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o asesu gwaith disgyblion o dan yr amgylchiadau presennol. Mae ysgolion wedi darganfod bod darparu adborth ar lafar neu ysgrifenedig ar unwaith tra bod disgyblion ar-lein wedi bod o fudd i'w dysgu. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio apiau lle gallant weld gwaith yr holl ddisgyblion ac ychwanegu sylwadau wrth iddynt weithio, neu ddefnyddio byrddau gwyn bach rhithwir i gael trosolwg o ddealltwriaeth pob disgybl. Hefyd, mae ysgolion yn defnyddio apiau sy'n galluogi staff i recordio ffeil sain fer o adborth llafar yn gysylltiedig â gwaith pob disgybl. Wedyn, gallant weld pan fydd disgyblion wedi gwrando ar yr adborth. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio cwisiau a phrofion syml i fonitro dysgu. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod gwaith ysgolion o ran asesu yn llai datblygedig na gwaith yn ymwneud â darpariaeth dysgu o bell, ac yn gyffredinol, maent yn ei weld yn heriol asesu cynnydd disgyblion yn gywir o dan yr amgylchiadau presennol.

## Medrau disgyblion

Cyn y cyfnod clo, roedd llawer o ysgolion wedi bod yn cynnig ymyriadau i ddisgyblion yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae ysgolion yn parhau i gynnig y rhain o bell, gan ddefnyddio cynorthwywyr addysgu neu staff ychwanegol a gyflogir trwy'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Mae llawer o ysgolion yn pryderu am fedrau llythrennedd disgyblion yn arbennig.

## Setiau a bandiau

Er mwyn creu swigod sydd mor fach â phosibl, mae llawer o ysgolion wedi newid eu trefniadau o ran setiau a bandiau yng nghyfnod allweddol 3. Mewn llawer o achosion, caiff disgyblion eu haddysgu mewn dosbarthiadau gallu cymysg, yn aml yn eu dosbarthiadau ar gyfer eu holl wersi. Pan na chaiff gwaith ei wahaniaethu'n briodol, gall hyn fod yn rhwystredig i ddysgwyr gallu uwch, ac yn heriol i'r rheiny sydd angen cymorth ychwanegol. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion wedi defnyddio chwarter neu hanner grwpiau blwyddyn er mwyn cadw swigod yn fach, ond hefyd i ganiatáu ar gyfer rhyw elfen o roi disgyblion mewn setiau. Mewn achosion eraill, caiff disgyblion eu haddysgu mewn grwpiau gallu ar gyfer eu holl wersi.

## Monitro darpariaeth dysgu o bell ac ymgysylltiad disgyblion

Mae gan ysgolion fwy o strwythurau ar waith i fonitro ansawdd darpariaeth ar-lein nag yn ystod y cyfnod clo blaenorol. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn golygu uwch arweinwyr a phenaethiaid adrannau neu gyfadrannau yn dod yn aelodau o ddosbarthiadau ar-lein a chael blas o'r ddarpariaeth. Os bydd ysgolion yn cael mynediad trwy Google Classroom trwy Hwb, mae ganddynt lai o hawliau gweinyddol nag y byddai ganddynt fel arall. Gall hyn wneud monitro yn fwy heriol ac mae hyn yn achosi rhwystredigaeth. Mae rhai arweinwyr wedi dewis 'dilyn' ychydig o ddisgyblion yn rhithwir i ddeall profiad dysgu o bell yn well. Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn arsylwi gwersi byw. Fodd bynnag, mae natur, amlder a thrylwyredd gweithgareddau monitro yn amrywio'n eang, ac mewn rhai achosion, mae systemau yn ad hoc, yn hytrach na rhai ffurfiol. I raddau amrywiol, mae ysgolion yn defnyddio adborth disgyblion, staff a rhieni o arolygon i fonitro darpariaeth hefyd. Mewn rhai achosion, hwn yw'r prif fecanwaith ar gyfer monitro ansawdd y ddarpariaeth. Mae llawer o ysgolion yn canolbwyntio ar wella ansawdd y ddarpariaeth trwy ddysgu proffesiynol, a thrwy fodelu a rhannu arfer dda.

**Cameo**

**Ysgol Uwchradd Caerdydd**

Yn Ysgol Uwchradd Caerdydd, mae athrawon yn gwirfoddoli i rannu recordiadau o'u gwersi byw mewn sesiynau dysgu proffesiynol sy'n agored i bob un o'r staff. Caiff y gwersi hyn eu dadansoddi i archwilio'r dysgu a nodi arfer effeithiol.

**Cameo**

**Ysgol Uwchradd Cathays**

Mae Ysgol Uwchradd Cathays wedi cynnwys yr holl athrawon mewn monitro'r ddarpariaeth. O fewn timau meysydd pwnc, mae athrawon yn edrych ar lyfrau a dysgu ar-lein grŵp sampl o ddisgyblion mewn gwahanol grwpiau blwyddyn. Mae hyn yn eu galluogi i gymharu ansawdd y ddarpariaeth. Caiff eu canfyddiadau eu cymedroli gan yr uwch dîm arweinyddiaeth.

Hefyd, mae arweinwyr wedi cyflwyno adolygiadau un i un o ddysgu ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys edrych ar wersi wedi'u cofnodi o fewn timau pwnc. Ni ddyrennir barnau i'r wers, ac mae'r ffocws ar gael sgwrs i roi arweiniad.

Yn ystod y cyfnod clo blaenorol, roedd diffiniad ysgolion o ymgysylltiad disgyblion yn amrywio'n eang. Roedd llawer o ysgolion yn tueddu i ddefnyddio mewngofnodion disgyblion i fonitro ymgysylltiad, gyda lleiafrif ohonynt yn defnyddio ystod o feini prawf. Erbyn hyn, mae llawer o ysgolion wedi datblygu dulliau mwy arlliwiedig o farnu ymgysylltiad disgyblion, ac maent yn defnyddio ystod o feini prawf, yn cynnwys cyflwyno gwaith, a'i ansawdd. Yn gyffredinol, mae arfer ysgolion o fonitro presenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion yn llawer tynnach nag ydoedd yn ystod y cyfnod clo blaenorol. Fodd bynnag, mae amrywiad yn parhau. Mae rhai ysgolion yn cofrestru disgyblion ym mhob gwers, a chysylltir â disgyblion ar unwaith os na fyddant yn mynychu, mae ysgolion eraill yn monitro ac yn cysylltu bob dydd, ac mae rhai ohonynt yn monitro bob wythnos neu bob pythefnos. Dywed ychydig o ysgolion fod rhai disgyblion Blwyddyn 9 wedi rhoi'r gorau i ymgysylltu â phynciau penodol nad ydynt yn rhai craidd os ydynt yn bwriadu peidio â'u hastudio ar lefel TGAU. Dywed ysgolion hefyd mai disgyblion gallu is a disgyblion dan anfantais yw'r rhai sy'n ymgysylltu lleiaf â dysgu o bell.

Mae amrywiaeth o fewn ysgolion ac o fewn adrannau yn parhau i fod yn broblem â dysgu o bell. Gall cymhwysedd a hyder athrawon mewn defnyddio technoleg effeithio ar ansawdd gwersi, a gall rhai o nodweddion addysgu wyneb yn wyneb effeithiol, er enghraifft holi a rhediad, fod yn anodd i'w hail-greu ar-lein.

## Dysgu proffesiynol

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn teimlo bod datblygiad cyflym medrau staff wrth ddefnyddio platfformau digidol a darparu dysgu o bell wedi bod ymhlith canlyniadau cadarnhaol y pandemig. Mae ysgolion yn parhau i ganolbwyntio mwyafrif eu darpariaeth dysgu proffesiynol ar yr agweddau hyn. Hefyd, mae ysgolion yn teimlo y bydd y symud i gyfarfodydd ar-lein, yn cynnwys cyfarfodydd a chyrsiau dysgu proffesiynol o fudd yn y dyfodol, a bydd yn galluogi mwy o ymarferwyr i elwa ar ystod ehangach o brofiadau dysgu proffesiynol.

**Cameo**

**Ffederasiwn Ysgol Glan y Môr ac Ysgol Bryngwyn**

'Disgleirio'r golau' ('Shining the light') yw dull Ffederasiwn Ysgol Glan y Môr ac Ysgol Bryngwyn o ysbrydoli a chymell staff i deimlo'n gyfforddus yn y ffordd newydd hon o weithio. Bob wythnos, mae athrawon o wahanol adrannau yn

rhannu un neu ddau o bethau y maent wedi eu defnyddio yn ystod y pythefnos diwethaf ac yn rhoi brawddeg ar sut gwnaethant ei ddefnyddio, beth aeth yn dda a'r rhwystrau a gawsant. Wedyn, mae adrannau'n enwebu adran arall i rannu eu harfer dda yn ystod yr wythnos ganlynol. Wrth i fwy o adrannau rannu'r gwahanol bethau maent wedi eu treialu, mae'r prosiect yn esblygu ac yn annog rhagor o ddeialog broffesiynol ar draws y ffederasiwn yn gyffredinol.

## Cymwysterau ac arholiadau

Mae llawer o ysgolion wedi canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi grwpiau blwyddyn arholiadau. Mae athrawon yn teimlo dan bwysau i gwblhau cymaint o'r cyrsiau arholi ag y bo modd, a chasglu tystiolaeth am gynnydd disgyblion er mwyn llywio graddau asesedig canolfannau. Adlewyrchwyd y ffocws hwn hefyd pan oedd disgyblion yn yr ysgol, gan roi blaenoriaeth i grwpiau blwyddyn arholiadau o ran pynciau sy'n cynnwys elfennau ymarferol, fel arbrofion gwyddoniaeth a defnyddio ystafelloedd arbenigol mewn dylunio a thechnoleg.

At ei gilydd, mae ysgolion o'r farn mai graddau wedi eu pennu gan ganolfannau yw'r opsiwn tecaf, ond maent yn nerfus ynglŷn â'r broses apelio ac yn poeni y bydd peidio â chael unrhyw arholiadau yn arwain at ddiffyg cymhelliant gan ddosbarthiadau arholiadau. Hefyd, maent yn bryderus ynglŷn â'r baich gwaith ac ynglŷn â'r ansicrwydd o ran trefniadau asesu a chymwysterau galwedigaethol. Mae pryderon penodol ynghylch adrannau sy'n cynnwys un aelod o staff yn unig. Mewn un ysgol, mae timau maes pwnc wedi paratoi cynllun o'r dystiolaeth sydd ganddynt eisoes, beth sydd ar goll a sut gallent fynd i'r afael ag unrhyw feysydd ysgafn. Mae ychydig o ysgolion yn gweithio gydag ysgolion eraill i ychwanegu haen adolygu cymheiriaid at eu proses er mwyn cymedroli graddau a bennir gan ganolfannau.

Er bod grŵp blwyddyn arholiadau'r llynedd wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'u cyrsiau erbyn y cyfnod clo, dim ond tua chwe mis o addysg 'arferol' mae'r grwpiau blwyddyn arholiadau eleni wedi'i chael. Mae profiadau ers mis Medi 2020 yn amrywio'n helaeth ar draws ysgolion; ni tharfwyd o gwbl ar addysg disgyblion Blwyddyn 11 mewn rhai ysgolion, ond mae disgyblion eraill wedi colli 10 wythnos o ysgol, neu fwy.

## Cyfathrebu â rhieni, a chymorth ar eu cyfer

Mae llawer o arweinwyr yn teimlo bod y pandemig wedi ysgogi gwelliant ym mherthynas eu hysgol â rhieni, a'r ffordd y maent yn cyfathrebu â nhw. Mae'r sefyllfa wedi golygu y bu angen i ysgolion gysylltu â rhieni yn amlach o lawer nag o'r blaen. Hefyd, mae llawer o ysgolion wedi defnyddio holiaduron i rieni i gael amcan o'u barn ar ddarpariaeth ar-lein a lles disgyblion yn benodol.

**Cameo**

**Ysgol Dyffryn Aman**

Mae gan Ysgol Dyffryn Aman raglen ymglymiad rhieni ar-lein. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar weithio gyda rhieni i nodi cryfderau a bylchau mewn darpariaeth, a chynllunio blaenoriaethau gwella a fydd yn cefnogi rhieni. Er enghraifft, cynhaliwyd gweithdai ar destunau fel defnyddio Hwb a Google Classroom, cymorth bugeiliol a lles, cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac agweddau at ddysgu.

**Cameo**

**Ysgol Glan y Môr**

Penodwyd swyddog cefnogi rhieni yn Ysgol Glan y Môr. Mae'r swyddog yn delio â materion fel mynd â dyfeisiau o un lle i'r llall, delio â rhwystrau TGCh, mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a helpu ag ymholiadau rhieni. Hefyd, mae'r ysgol wedi sefydlu gwefan cymorth i rieni i helpu rhieni i ddysgu mwy am ddysgu cyfunol a'r ffordd y mae Google Classroom yn gweithio.

**Cameo**

**Ysgol Gyfun Gymunedol Glyn Rhedynog**

Mae Ysgol Gymunedol Glyn Rhedynog mewn ardal sydd wedi cael ei tharo'n galed iawn gan achosion o COVID-19 ac mae wedi cael ei chefnogi gan yr awdurdod lleol i benodi Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd. Mae'r swyddog wedi bod yn gweithio gyda theuluoedd i leddfu pryderon, cynnal ymweliadau cartref a rheoli dychwelyd i'r ysgol yn raddol. Yn ychwanegol, mae gan y swyddog gyfrifoldeb am oruchwylio dysgu o bell y disgyblion hynny y nodwyd eu bod wedi eu heithrio yn ddigidol (yn yr haf) a monitro eu mynediad at galedwedd ac ymgysylltu â dysgu.

Mae llawer o ysgolion yn cynnig noson rieni ar-lein. Canfu un ysgol fod presenoldeb yn uwch nag ydoedd mewn noson rieni 'arferol', ac mae arweinwyr yn ystyried cadw'r trefniant hwn ar gyfer y dyfodol. Yn yr un modd, mae ysgolion wedi symud llawer o'u proses opsiynau ar-lein, gydag adrannau'n darparu cyflwyniadau fideo am eu pynciau.

## Dyfeisiau a chysylltedd digidol

Mae ysgolion yn parhau i adrodd am heriau o ran darparu cyfrifiaduron ar gyfer disgyblion a staff. Yn benodol, nid oes gan leiafrif o ddisgyblion eu cyfrifiadur eu hunain, ac mae'n rhaid iddynt rannu â'u brodyr a'u chwiorydd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r disgyblion hyn gael mynediad at wersi byw. Cyn y pandemig, nid oedd gan athrawon mewn llawer o ysgolion liniadur ysgol gan mai cyfrifiaduron bwrdd gwaith oedd ganddynt yn eu hystafelloedd dosbarth. Bu'n rhaid i ysgolion fuddsoddi cyllid mewn darparu offer i athrawon, er nad oes gan rai ysgolion y cyllid i wneud hynny.

Mae ysgolion wedi cael anawsterau yn caffael offer, a phan maen nhw wedi'i archebu, mae llawer ohonynt wedi gorfod aros, neu maent yn aros o hyd i offer gyrraedd. Mewn un achos, archebodd ysgol liniaduron ym mis Mehefin 2020, ond nid yw wedi cael y rhain eto. Mewn rhai achosion, mae ysgolion yn ddibynnol ar elusennau i ddarparu gliniaduron ar gyfer disgyblion. Yn ychwanegol, o ganlyniad i broblemau argaeledd, bu'n rhaid i ysgolion brynu amrywiaeth o wahanol ddyfeisiau, fel ipads, Chromebooks a chyfrifiaduron bwrdd gwaith. Gall hyn fod yn heriol i ysgolion, gan eu bod yn defnyddio gwahanol feddalwedd neu nid ydynt yr un mor hyblyg o ran eu defnyddio.

Mae mynediad at y rhyngrwyd yn parhau i fod yn her, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yn ychwanegol, er bod donglau wedi cael eu rhoi i lawer o ddisgyblion, mae disgyblion eraill yn ei chael yn anodd o hyd, ac mae ysgolion wedi bod yn darparu cardiau SIM ble gallant, er nad yw hyn yn ateb delfrydol. Mewn rhai achosion, mae teuluoedd yn colli mynediad at y rhyngrwyd am nad yw biliau wedi cael eu talu, ac mewn achosion eraill, maent yn byw mewn llety dros dro lle mae'n anodd cael mynediad at Wi-Fi. Dywed rhai ysgolion eu bod wedi cael problemau â'u band eang (broadband). Er enghraifft, bu'n rhaid i rai ysgolion gyfyngu ar nifer y gwersi byw yr oeddent yn gallu eu darparu pan oedd athrawon yn ffrydio o adeilad yr ysgol oherwydd capasiti'r band eang. Yn yr un modd, dywed rhai ysgolion fod eu systemau'n rhoi'r gorau i weithredu yn aml gan na allent ymdopi â nifer y ffeiliau a oedd yn cael eu lanlwytho.

## Amseriad y diwrnod ysgol

Addasodd lleiafrif o ysgolion amseriad y diwrnod ysgol pan ddychwelon nhw i'r ysgol ym mis Medi. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu bod y diwrnod ysgol yn gorffen rhwng 1.40 a 2.15 p.m. Addaswyd amseroedd am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys cael amseroedd cinio byrrach, wedi'u rhannu, gan fod disgyblion yn defnyddio'r ffreutur mewn grwpiau blwyddyn neu er mwyn i gwmnïau bysiau gludo disgyblion cynradd ac uwchradd ar wahân i leihau trosglwyddo'r feirws.

Yn ystod y cyfnod dysgu ar-lein presennol, mae amseriad a threfn y diwrnod ysgol yn amrywio o un ysgol i'r llall. Mae rhai ysgolion yn dilyn yr amserlen ysgol arferol, tra bod ysgolion eraill wedi byrhau neu ymestyn gwersi, wedi cyflwyno egwylion hwy neu egwylion rhwng pob gwers, neu'n gorffen y diwrnod ysgol yn gynnar i leihau faint o amser mae disgyblion yn ei dreulio ar y sgrin.

## Profi Olrhain Diogelu (TTP)

Mae penaethiaid yn parhau i fynegi rhwystredigaeth ynglŷn â'r amrywiad mewn cyngor ynghylch hunanynysu ar draws awdurdodau lleol. Mewn rhai awdurdodau lleol, dywedir wrth benaethiaid bod rhaid iddynt ofyn i grwpiau blwyddyn gyfan hunanynysu os oes achos positif neu dywedir wrthynt fod yn rhaid iddynt allu rhoi sicrwydd nad yw disgyblion wedi bod mewn cysylltiad â disgybl sydd wedi profi'n bositif, er mwyn gofyn i lai o ddisgyblion hunanynysu. Mewn awdurdodau lleol eraill, dywedir wrth benaethiaid y gallant ddefnyddio eu systemau olrhain cysylltiadau eu hunain i nodi'r disgyblion y mae angen iddynt hunanynysu.

## Athrawon newydd gymhwyso a myfyrwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon

Mae darpariaeth ar gyfer athrawon newydd gymhwyso (ANG) yn amrywio ar draws ysgolion. Mewn rhai achosion, mae athrawon newydd gymhwyso wedi cael darpariaeth sydd fwy neu lai yn debyg i'r ddarpariaeth y byddent fel arfer yn ei chael, er bod hynny ar-lein. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd yn yr ysgol a sesiynau cymorth gan fentoriaid ysgol a mentoriaid allanol, yn ogystal â sesiynau dysgu proffesiynol ar ôl yr ysgol. Mewn rhai achosion, maent wedi cael eu harsylwi'n addysgu hefyd. Fodd bynnag, mewn enghreifftiau eraill, mae athrawon newydd gymhwyso wedi cael ychydig iawn o gymorth gan eu hysgol neu sefydliad addysg uwch. Mae llawer o ysgolion yn poeni am eu hathrawon newydd gymhwyso, gan eu bod wedi cael cyn lleied o brofiad addysgu'r llynedd.

Ceir gwahaniaethau tebyg yn y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr addysg gychwynnol i athrawon. Er enghraifft, dechreuodd myfyrwyr o un brifysgol addysgu yn gynharach na'r myfyrwyr o brifysgol arall, sy'n golygu eu bod wedi cael mwy o brofiad ac ymarfer. Yn yr un modd, mewn rhai ysgolion, maent yn helpu cyflwyno gwersi byw ochr yn ochr ag athrawon, ond mewn ysgolion eraill, nid oes ganddynt unrhyw brofiad o addysgu byw. Mewn rhai achosion, mae myfyrwyr addysg gychwynnol i athrawon wedi cael eu cyfweld am swyddi addysgu er nad ydynt erioed wedi addysgu gwers mewn ystafell ddosbarth.

**Cameo**

**Ysgol Uwchradd Caerdydd**

Er mwyn cefnogi myfyrwyr addysg gychwynnol i athrawon, mae Ysgol Uwchradd Caerdydd yn cynnal sesiynau lle mae myfyrwyr yn cymryd rhan mewn dadansoddiad grŵp o wers mentor wedi'i recordio, ac yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr gynllunio a chofnodi gwersi cyfan i'w mentoriaid eu gwylio (yn hytrach nag ar gyfer disgyblion).